

AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

Gwneud Gwahaniaeth

Cynllun Strategol – Hawdd ei ddeall 2018-2021

Amdanom ni



Rydyn ni'n sefydliad bach.

Mae gwaith mawr gyda ni i'w wneud.



Rydyn ni'n gwirio bod gofal iechyd yng

Nghymru yn dda



Cleifion yw'r rheswm rydyn ni'n gwneud

ein gwaith



Dydyn ni ddim yn rhan o'r GIG. Rydyn ni'n

annibynnol.




Rydyn ni'n gwirio sut beth yw gofal iechyd

Rydyn ni'n gwirio:



- gwasanaethau'r GIG
- gwasanaethau iechyd preifat, fel ysbytai preifat a rhai salonau harddwch



Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag eraill i wirio gwasanaethau iechyd mewn carchardai a Thimau Troseddau leuencid.



Rydyn ni'n gwirio bod pob claf yn cael ei drin yn deg ac yn garedig.



Rydyn ni'n gwneud mwy o wiriadau i gael gwybod a yw pobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael eu trin yn deg ac yn garedig.



Rydyn ni'n dweud wrth bobl beth sy'n gweitho'n dda a beth nad yw'n gweithio cystal.



Rydyn ni'n dweud wrth y llywodraeth a'r GIG beth rydyn ni'n credu bydd yn gwneud gofal iechyd yn well.



Newid y ffordd rydyn ni'n gweithio



Rhwng 2018 a 2021, mae angen i ni newid y ffordd rydyn ni'n gweithio.

Mae angen i ni:



- wneud mwy o waith gyda sefydliadau eraill a gwasanaethau cyhoeddus eraill



- gwneud mwy i gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ein gwaith



- cynllunio ein gwaith yn dda iawn



- gwneud mwy o waith gydag ysbytai sy'n helpu pobl i aros allan o'r ysbyty



Gwneud Gwahaniaeth

2018 hyd 2021



Rydyn ni eisiau:



- annog pawb i wella gofal iechyd



- ei gael yn iawn pan rydyn ni'n cynllunio a gwneud ein gwaith



- dweud wrth bobl beth rydyn ni'n ei wneud



Byddwn ni'n gwybod os ydyn ni'n gwneud ein gwaith yn dda os:



- mae gwasanaethau iechyd yn gwella



- mae pobl yn ymddiried ynom ni i ddweud os nad yw gofal iechyd yn dda



- mae pobl yn gwybod mwy am ein gwaith



- rydyn ni'n cael y gorau o'n staff, arian ac adeiladau

1	✓
2	✓
3	✓
4	✓

Ein pedair prif flaenoriaeth



Blaenoriaeth 1

Gwneud y gwaith y bydd yn cael yr effaith fwyaf ar wella gofal iechyd



Byddwn ni'n dod yn well wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth am wasanaethau iechyd.



Byddwn ni'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ar ddiogelwch a llesiant cleifion.



Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n arolygu gwasanaethau, yn enwedig Arolygiaeth Gofal Cymru.



Byddwn ni'n gwirio sut rydyn ni'n ysgrifennu adroddiadau. Rydyn ni eisiau adroddiadau sydd:

- yn hawdd eu deall
- yn dweud wrth bobl beth maen nhw eisiau gwybod am wasanaethau



Byddwn ni'n meddwl am ffyrdd newydd o ddweud wrth bobl am ein gwaith.



Blaenoriaeth 2

Gwneud rhywbeth pan nad yw gwasanaethau iechyd yn dda



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwirio'r pethau pwysicaf, fel diogelwch cleifion.



Byddwn ni'n dod yn well wrth wirio a yw gwasanaeth yn gwneud beth rydyn ni wedi dweud wrthyn nhw am wneud.



Byddwn ni'n dod yn well wrth ddweud wrth y cyhoedd beth rydyn ni'n ei wneud os nad yw gwasanaeth yn dda.



Byddwn ni'n meddwl am sgorio gwasanaethau iechyd annibynnol.



Byddwn ni'n dod yn well wrth gyfathrebu gyda gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.



Byddwn ni'n gwirio a oes gennym ni y pwerau cyfreithiol cywir i weithredu os yw gwasanaeth iechyd yn torri'r rheolau.

Blaenoriaeth 3

Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n gwneud



Byddwn ni'n dod yn well wrth wrando ar y cyhoedd.

Byddwn ni'n



- defnyddio mwy o ffyrdd i ofyn i gleifion a theuluoedd siarad gyda ni



- gofyn i grwpiau cymunedol ac elusennau i'n helpu ni i ddod o hyd i ffyrdd i grwpiau o bobl siarad am eu profiadau



Byddwn ni'n dod yn well wrth ddweud wrth bobl am ein gwaith.

Byddwn ni'n:



- defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn fwy



- gwneud ein hadroddiad blynyddol yn well



- cynnal digwyddiadau i helpu gwasanaethau iechyd i wella



Byddwn ni'n cynnwys pobl yn ein gwaith
mewn ffyrdd newydd.

Byddwn ni'n:




- rhoi cynnig ar ffyrdd newydd i
wrando ar gleifion a'r cyhoedd pan
fyddwn ni'n gwirio gwasanaeth



- edrych ar sut i ddefnyddio ein panel
adolygwyr mewn ffordd well



- gofyn i'r cyhoedd wirio a yw'r cynllun
2018 hyd 2021 yn gweithio'n dda



- gofyn i'r cyhoedd ein helpu i
gynllunio ar gyfer y dyfodol



Blaenoriaeth 4

Cefnogi ein staff fel ein bod ni'n gwneud y gwaith gorau a allwn ei wneud

Byddwn ni'n edrych ar:



- sut rydyn ni'n defnyddio cyfrifiaduron
- sut rydyn ni'n cynllunio gwaith bob blwyddyn
- sut rydyn ni'n gwirio ein bod ni'n gwneud gwaith da



Byddwn ni'n gwario arian ar hyfforddi ein staff.



Byddwn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n recriwtio a hyfforddi'r staff sy'n mynd allan i wirio gwasanaethau.



Byddwn ni'n gwirio bod gennym ni'r staff iawn i wneud beth mae'n ei ddweud yn y cynllun hwn.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.hiw.org.uk
ISBN 978-1-78937-415-5

 | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales